

# **Gwasanaethau Trosi Rhif: Ffordd ymlaen**

**Crynodeb o'r ail ymgynghoriad.**

**Cyhoeddwyd: 28 Medi 2005**

**Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 6 Rhagfyr 2005**

# Gwasanaethau Trosi Rhif: Ffordd ymlaen

## Cyflwyniad

Ofcom yw rheoleiddiwr annibynnol gwasanaethau teledu, radio, telegyfathrebiadau a chyfathrebu diwifr yn y DG.

Rhan o'n rôl yw edrych yn agos ar sut y caiff y gwasanaethau hyn eu rhedeg a'u cynnig. Lle credwn y gallai pethau fod yn well, ymgynghorwn â phawb dan sylw, o'r cwmnïau sy'n cynnig y gwasanaethau hyn i'r cwsmeriaid sy'n eu defnyddio.

Mae'r llyfryn hwn yn grynodedb o'n hail ymgynghoriad yn ein golwg barhaus ar Wasanaethau Trosi Rhif (NTS). Cynhaliwyd ein hymgyngoriad cyntaf ym mis Hydref 2004, pan awgrymwyd nifer o syniadau posibl a gofynnwyd am farnau pawb amdanynt. Yr adeg honno, cawsom glywed gan groestoriad eang o gwsmeriaid preifat a busnesau. Gyda'r adborth hwn mewn cof, rydym hefyd yn awgrymu sut y gallai NTS weithio yn y dyfodol - ac eto, hoffem gael eich barnau chi.

Y syniad y tu ôl i'r llyfryn hwn yw rhoi i chi grynodedb o'n cynigion. Cewch weld y ddogfen ymgynghori lawn ar ein gwefan ar [www.ofcom.org.uk](http://www.ofcom.org.uk). Gallwch hefyd weld yr ymgynghoriad cyntaf, y crynodeb a oedd ynghlwm wrthi a'r ymatebion a gawsom. Rydym wedi ceisio osgoi defnyddio jargon, ond mae'r eirfa yn atodiad B yn esbonio ychydig dermau technegol.

## Galwadau NTS

Beth yw galwad NTS? Galwad ydyw i rif ffôn sy'n dechrau fel arfer gyda 08 neu 09. Mae'r rhifau hyn yn eich trosglwyddo i ystod o wasanaethau adloniant a gwybodaeth, gan gynnwys banciau, amryw linellau cymorth, gwasanaethau cyhoeddus a llywodraeth, a gwasanaethau rhyngwyd talu wrth ddefnyddio.

Nid oes gan y rhifau 08 a 09 unrhyw gysylltiad ag unrhyw fan penodol, yn wahanol i rifau 01 a 02 sy'n gysylltiedig â manau penodol yn y DG (er enghraifft, mae rhif 02 yn Llundain). Cewch weld mwy o wybodaeth yn atodiad A am sut y mae galwadau NTS a galwadau 'daearyddol' yn gweithio.

Pan fyddwch yn ffonio gwasanaeth NTS, derbynnir eich galwad (term y diwydiant yw 'terfynu') gan ddarparwr telegyfathrebiadau sy'n gweithio i'r gwasanaeth hwnnw. Felly, pan fyddwch yn talu eich cwmni ffôn eich hun am yr alwad, maent yn trosglwyddo cyfran o'r arian hwnnw i'r darparwr telegyfathrebiadau, sydd yn ei dro'n trosglwyddo cyfran i'r cwmni sy'n cynnig y gwasanaeth y oedd arnoch ei eisiau. Enw'r broses hon yw 'rhannu referniw'.

## **Pam rydym yn adolygu sut y caiff NTS ei redeg**

Cafwyd dau achos pryder sydd wedi'n harwain at gynnal yr adolygiad hwn. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r trefniadau busnes rhwng yr amryw gwmnïau a darparwyr ffôn, a'r cwmnïau sy'n cynnig y gwasanaethau mewn gwirionedd (y 'darparwyr gwasanaeth'). Codwyd yr ail bryder gan gwsmeriaid ffôn arferol, a oedd yn gofyn pam y mae galwadau NTS yn aml yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02 a pham y mae mor anodd i ddarganfod cost y galwadau hyn cyn eu gwneud.

## **Y diwydiant ac NTS**

Fel unrhyw alwad ffôn, gall galwad NTS ymwneud â mwy nag un rhwydwaith ffôn. Gall eich bod gydag un cwmni ffôn, tra bod y darparwr gwasanaeth rydych chi'n ei ffonio gyda chwmni arall. Os ydych yn gwsmer BT, yna BT yw 'darparwr cychwynnol' neu 'ddechreuwr yr alwad' eich galwad NTS. Y rhwydwaith sy'n cynnal y gwasanaeth NTS hwnnw yw'r 'darparwr terfynu' neu 'derfynwr yr alwad'. Daw eich galwad i ben gyda'r rhwydwaith hwnnw.

Pan fydd cwsmer BT yn gwneud galwad NTS, golyga'r rheolau cyfredol fod rhaid i BT drosglwyddo mwyafrif pris yr alwad i'r darparwr terfynu. Mewn gwirionedd, caniateir i BT gadw digon i dalu ei gostau yn unig tra aiff unrhyw elw i'r darparwr terfynu. Ond, os byddwch yn gwneud galwad ddaearyddol (unrhyw alwad i rifau sy'n dechrau gyda 01 neu 02), BT sy'n cael yr elw a chaiff y darparwr terfynu ddigon i dalu ei gostau yn unig.

Mae'r diwydiant telegyfathrebiadau wedi codi rhai pryderon ynghylch sut y mae'r rheolau hyn yn gweithio.

- Mae'r darparwyr terfynu'n dweud, er eu bod yn cael yr elw o alwadau NTS, nad oes ganddynt fawr o lais o ran faint yw'r elw hwnnw, na faint fydd ar gael i'w drosglwyddo i ddarparwyr gwasanaeth NTS. O bryd i'w gilydd mae BT yn adolygu ei brisiau, ond gall hyn olygu bod y darparwyr terfynu yn cael eu talu llai. Yn ei dro, mae'r ansicrwydd hwn ynghylch faint y byddant yn ennill yn effeithio ar y cwmnïau sy'n darparu'r gwasanaethau NTS, a bu eisoes sawl anghydfod.
- Mae gwahanol reolau am sut y rhennir yr arian a enillir am gysylltu galwadau 0844 a 0871 o gymharu â galwadau 0845 a 0870. Hoffai'r diwydiant i'r gwahaniaethau hyn gael eu datrys.

## **Gwasanaethau rhyngwyd talu wrth ddefnyddio**

Yn ogystal â'r pryderon hyn, mae cwestiwn ynghylch dyfodol gwasanaethau rhyngwyd talu wrth ddefnyddio (PAYG) sy'n defnyddio rhifau 0845. Mae darparwyr gwasanaethau rhyngwyd (ISPs) yn cynnig i gwsmeriaid ystod eang o'r gwasanaethau hyn, ac mae dros bum miliwn o bobl yn y DG yn eu defnyddio. Maent yn berffaith i bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwyd yn aml iawn, ac nad ydynt yn poeni gormod am gyflymderau band eang uchel. Fodd bynnag, yn 2003 gostyngodd BT ei brisiau adwerthu ar gyfer galwadau 0845, a chyda phecynnau gostyngiad newydd ar ben hynny, mae BT bellach

yn talu llai i'r darparwyr terfynu. O ganlyniad, gall elw'r ISPs ostwng cymaint nes na fydd gwerth iddynt barhau i ddefnyddio rhif 0845 ar gyfer y gwasanaeth gwerthfawr hwn.

Un ateb posibl yw bod yr ISPs yn symud eu gwasanaethau i rif NTS gwahanol, fel 0844, lle na all BT newid y swm y mae'n ei dalu i'r darparwyr terfynu. Fodd bynnag, efallai nad yw'r ateb hwn cystal ag yr ymddengys. Mae rhifau 0845 yr ISPs hynny eisoes wedi'u storio mewn miliynau o gyfrifiaduron cwsmeriaid. Ni fyddai'n hawdd eu newid, a gallent golli llawer o fusnes. Dyna'r rheswm y mae ISPs yn awyddus i gadw eu rhifau 0845, o leiaf hyd nes i'r cwsmeriaid hynny symud i wasanaethau rhyngwyd band eang cyflymach.

## **Cwsmeriaid ac NTS**

Cawsom fwy na 100 o ymatebion i'n hymgyngghoriad NTS cyntaf, a gyhoeddwyd fis Hydref y llynedd. O ganlyniad i'r ymatebion hyn, gwnaethom gynnal ymchwil pellach i'r farchnad i ddarganfod i ba raddau'n union roedd cwsmeriaid yn poeni am alwadau NTS. Gofynnwyd iddynt hefyd beth roeddent yn ei feddwl am ein syniadau i fynd i'r afael â'u pryderon.

Ar y cyfan, nodwyd nifer o broblemau yr oedd angen sylw arnynt, gan gynnwys y canlynol.

- Mae'n ymddangos mai ychydig bobl sy'n gwybod beth yw cost ffonio rhifau 084 a 087, a chred y rhan fwyaf o bobl fod y galwadau'n ddrutach nag y maen nhw mewn gwirionedd.
- Cred rhai cwsmeriaid y dylai darparwyr terfynu stopio rhannu'r arian a enilliant drwy rifau 08 gyda'r cwmnïau sy'n darparu'r gwasanaethau. Mae pobl yn credu y gallant dalu gormod, yn enwedig pan fyddant yn ffonio gwasanaethau cyhoeddus a hanfodol, neu linellau cymorth ôl-werthu.
- Yn gynyddol, mae cwmnïau'n tueddu defnyddio rhifau 0870 drutach, yn hytrach na'u rhifau daearyddol 01 neu 02.
- Mae pryderon y gall pobl gael eu camarwain gan hysbysebion sy'n disgrifio galwadau i rifau 0845 fel 'cyfradd leol', a rhifau 0870 fel 'cyfradd genedlaethol'. Mae'r disgrifiadau hyn yn awgrymu y codir tâl am y rhifau ar gyfraddau galwadau daearyddol, pan eu bod nhw'n ddrutach mewn gwirionedd gan nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn gymwys am ostyngiadau.
- Cred rhai cwsmeriaid fod canolfannau galwadau sy'n defnyddio rhifau NTS yn cadw pobl ar y lein ar bwrpas er mwyn ennill mwy o'r galwadau.
- Mae pryderon bod gwasanaethau sy'n fwy addas i oedolion yn cael eu cynnig bellach ar rifau 0870 a 0871, a'i bod yn anoddach atal plant rhag ffonio'r rhifau hyn.

- Mae ofnau am dwyll gyda chysylltiadau rhyngwyd talu wrth ddefnyddio. Gellir 'herwgipio' cyfrifiadur cwsmer i ddeialu rhifau 087 drutaf, heb iddo wybod.

## Ymagwedd arfaethedig Ofcom ar gyfer NTS

### Ein hymgyngoriad cyntaf

Yn ein hymgyngoriad cyntaf, awgrymwyd pum ymagwedd bosibl ar gyfer dyfodol NTS. Roedd y rhain yn amrywio o adael pethau fel y maent, hyd at wahardd rhannu refeniw yn gyfan gwbl ar bob rhif 08 a 09. Yr ymagwedd a oedd yn well gennym oedd agor rhifau 0845 a 0870 i gystadleuaeth prisiau trwy adael i ddarparwyr gwasanaeth godi pa dâl bynnag y mynnant, hyd at fwyafswm o 4c y funud ar gyfer rhifau 0845 ac 8c y funud ar gyfer rhifau 0870. Fodd bynnag, nid oedd y diwydiant na'i gwsmeriaid yn cytuno â ni.

Roedd angen i ni benderfynu a allai'r holl syniad o gwmnïau'n rhannu arian o alwadau fod yn fargen wael i gwsmeriaid. O'n gwaith ymchwil, fe ddarganfuom nad oedd gan y rhan fwyaf o bobl unrhyw broblem gyda'r syniad sylfaenol o dalu am wasanaethau NTS trwy gost eu galwadau. Mewn gwirionedd, credai llawer o bobl fod y rhan fwyaf o alwadau NTS yn cynnig gwerth rhesymol am arian. Cafwyd pryderon, fodd bynnag, am ddefnyddio rhifau NTS ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ac rydym wedi codi'r pryderon hyn gyda'r amryw asiantaethau cyhoeddus a llywodraethol. O ganlyniad, mae corff cynghori'r Llywodraeth, sef Y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog, wedi datgan na ddylid defnyddio rhifau 087 ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Gan ein bod bellach wedi ystyried barnau cwsmeriaid, y diwydiant a darparwyr gwasanaeth NTS yn fanylach, rydym wedi penderfynu newid ein ymagwedd. Nodir ein cynigion newydd isod ac, oherwydd eu bod yn eithaf gwahanol i'n syniadau cyntaf, mae arnom eisiau i bawb gael y cyfle i roi eu hadborth i ni eto. Rhowch ein barnau i ni.

### Pa newidiadau rydym yn eu cynnig?

Dan ein ymagwedd newydd, byddai NTS yn newid yn y ffyrdd canlynol.

- **Galwadau 0870 rhatach.** Y prif bryder gan gwsmeriaid yw nifer gynyddol y darparwyr gwasanaeth sy'n defnyddio rhifau 0870 a'r costau uchel o'u ffonio. Felly, rydym yn cynnig y dylid, ar ôl y flwyddyn gyntaf, codi tâl am alwadau i rifau 0870 ar yr un gyfradd â galwad i rif daearyddol. Byddai'r newid hwn yn golygu y byddai'r rhan fwyaf o alwadau i rifau 0870 yn rhatach.

Yn y flwyddyn gyntaf honno, byddai prisiau rhifau 0870 yn cael eu capio ar eu pris cyfredol, ac ni ddylid hysbysebu rhagor y codir tâl ar 'gyfradd genedlaethol' am alwadau. Mae hyn i osgoi unrhyw ddrisych bod y galwadau hyn yn costio'r un fath â galwadau daearyddol.

- **Terfyn posibl ar rannu refeniw ar alwadau 0870.** Drwy ostwng cost galwadau i 0870 ar ôl y flwyddyn gyntaf, dylai olygu y byddai ychydig

iawn o arian i'w rannu rhwng y cwmnïau ffôn a darparwyr gwasanaeth NTS. Cynigiwn hefyd ddod i ben â chefnogi rhannu refeniw ar rifau 0870. Byddai'r cynigion hyn yn debygol o roi terfyn ar rannu refeniw ar alwadau 0870.

- **Dosbarthu 0871 fel cyfradd breimiwm.** Rydym hefyd yn cynnig y dylid cyflwyno rhifau 0871 i'r fframwaith rheoleiddio cyfredol sy'n bodoli ar gyfer gwasanaethau cyfradd breimiwm (PRS) sy'n gweithredu ar rifau 09. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i wasanaethau sy'n defnyddio rhifau 0871 ddilyn yr un rheolau â'r rheiny sy'n defnyddio rhifau 09. Byddai hyn yn rhoi mwy o amddiffyniad i ddefnyddwyr, gan gynnwys yr angen i arddangos prisiau galwadau ar hysbysebion am wasanaethau sy'n defnyddio rhifau 0871. Rydym hefyd yn gofyn a ddylai'r holl wasanaethau oedolion gael eu cynnwys dan reoleiddio PRS, beth bynnag eu cost, ac mae arnom eisiau eich barnau ynghylch a ddylid caniatáu i'r gwasanaethau hyn ddefnyddio rhifau '09' yn unig. Fel arall, ni fyddai unrhyw newidiadau i brisiau galwadau 0871 a byddai rhannu refeniw yn cael parhau ar y rhifau hyn.
- **Adolygu rhannu refeniw ar 0845 yn y dyfodol.** Gan fod rhifau 0845 mor boblogaidd ar gyfer mynediad rhyngrwyd talu wrth ddefnyddio (PAYG), cynigiwn ganiatáu i rannu refeniw barhau ar y rhifau hyn am ddwy flynedd arall o leiaf. Erbyn hynny, byddwn yn gwybod a yw gwasanaethau rhyngrwyd band eang yn golygu nad oes fawr o alw am PAYG. Os felly, efallai yr awgrymwn y codir tâl am alwadau 0845 ar brisiau daearyddol, fel a gynigir ar gyfer galwadau 0870. Yn y cyfamser, byddai galwadau 0845 yn cael eu capio ar eu pris cyfredol, ac ni ddylid hysbysebu rhagor bod galwadau yn alwadau 'cyfradd leol'. Eto, rydym eisiau dileu unrhyw ddryswch bod y galwadau hyn yn costio'r un fath â galwadau daearyddol.
- **Dim newid ar 0844.** Nid yw galwadau i rifau 0844 yn costio mwy na 5c y funud, ac rydym yn credu y dylai'r rheolau aros fel y maent. Mae'r risg o gwsmeriaid yn gorfod talu gormod yn is nag y mae gyda rhifau 087. Hefyd, petaem yn dileu rhannu refeniw yn gyfan gwbl, byddai llawer o wasanaethau poblogaidd yn diflannu. Byddwn yn cadw llygad ar alwadau 0844, fodd bynnag, ac os gwelwn unrhyw broblemau'n datblygu, byddwn yn ystyried estyn y rheolau PRS i gynnwys y rhifau hyn hefyd.
- **Newid graddol.** Gan y byddai'r cynigion hyn yn golygu newidiadau mawr i bawb sy'n ymwneud ag NTS, gall busnesau sy'n dibynnu ar incwm o alwadau ffôn gael niwed os cânt eu cyflwyno'n rhy gyflym. Felly, rydym wedi cynnig oedi am 12 mis cyn gwneud unrhyw newidiadau i rifau 0870. Byddai hyn yn rhoi'r amser i gwmnïau sy'n dibynnu ar rannu refeniw i symud eu gwasanaethau o rifau 0844 neu 0871.
- **Hysbysiadau ar ddechrau pob galwad.** Ar ôl 12 mis, byddai angen i ddarparwyr cychwynnol ostwng pris galwadau 0870 a chodi eu pris

galwad ddaearyddol cenedlaethol. Neu, pe byddent yn penderfynu codi mwy na hyn, byddai rhaid iddynt gyhoeddi'r pris gwirioneddol ar ddechrau pob galwad, cyn i'r alwad gael ei chysylltu.

- **Sefydliadau cyhoeddus.** Nid ydym eisiau gorfodi i unrhyw sefydliad ddefnyddio math penodol o rif. Fodd bynnag, rydym wedi awgrymu efallai nad yw rhifau NTS yn addas i sefydliadau cyhoeddus eu defnyddio. Mae hyn yn benodol wir ar gyfer sefydliadau sy'n gwasanaethu pobl sydd ar incwm isel. Felly, pan fydd sefydliadau cyhoeddus yn dewis rhifau NTS, dylent gael cyngor gan Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog y Llywodraeth.
- **Gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr am bris galwadau.** Fel ymarfer ar wahân, rydym yn edrych eto ar y rheolau ar sut y mae darparwyr cychwynnol yn dangos eu prisiau am alwadau NTS. Mae gan lawer ohonynt wahanol brisiau i brisiau BT, ac rydym yn credu y dylent wneud eu costau am ffonio rhifau 08 a 09 yn llawer cliriach ar restrï prisiau, mewn hysbysebion ac ar eu gwefannau. Bydd y rheol hon yr un fath i bawb, gan gynnwys y rhwydweithiau symudol.

### **Pa wahaniaethau fydd y newidiadau hyn yn eu hachosi?**

Gallech feddwl y bydd y cynigion hyn yn symud unrhyw broblemau a geir gyda rhifau 0845 a 0870 i rifau 0844 a 0871 yn lle. Nid ydym yn credu y bydd hyn yn digwydd.

Yn ein hymchwil, dywedodd nifer helaeth o ddarparwyr gwasanaeth mai'r hyn yr oedd wir arnynt ei eisiau oedd rhifau 0845 a 0870 annaearyddol gan y byddai hyn yn fwy gwerthfawr iddynt nag unrhyw gyfran o refeniw y gallent ei hennill. Mewn gwirionedd, dywedodd llawer na chânt gyfran o gwbl, neu y gallent gyllido eu gwasanaeth mewn rhyw ffordd arall. Mae hefyd yn anodd ac yn gostus newid rhifau, ac mae gan lawer ohonynt rifau y mae eu cwsmeriaid wedi'u storio ar eu cyfrifiaduron. Am y rhesymau hyn, credwn y bydd llawer o'r gwasanaethau hyn yn parhau gyda rhifau 0845 a 0870, ond ar gost is i gwsmeriaid.

Fodd bynnag, os yw gwasanaeth yn dibynnu ar rannu refeniw, gallai symud i rifau 0844 neu 0871. Heb yr opsiwn hwn, gallai rhai gwasanaethau ddiflannu – ac ni fyddai hynny'n helpu neb.

Yn Ofcom, credwn fod y cynigion newydd hyn yn gwneud cryn dipyn i ateb y pryderon a gawsom gan gwsmeriaid a'r diwydiant. Er hynny, mae angen eich barnau arnom cyn y gallwn wneud unrhyw newidiadau. Ceir ein manylion cyswllt yn adran nesaf y llyfryn hwn, ynghyd â'r dyddiad cau ar gyfer eich sylwadau. Mae gennym lawer o ddiddordeb hefyd yn eich barnau am ddau gwestiwn penodol, a geir yn yr adran nesaf. Am fwy o gefndir, gallwch weld y ddogfen ymgynghori lawn ar ein gwefan ar [www.ofcom.org.uk](http://www.ofcom.org.uk).

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Hoffem petaech yn ateb y cwestiynau canlynol sy'n gysylltiedig â'r wybodaeth yn y llyfryn hwn. Rydym wedi'u cymryd o atodiad 3 y ddogfen ymgynghori NTS lawn, y gallwch ei gweld – ynghyd â chwestiynau eraill rydym yn eu holi – ar ein gwefan.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'n cynnig na ddylid caniatáu rhannu refeniw ar alwadau 0870 rhagor os adnewyddir y cyswllt rhwng prisiau galwadau 0870 a phrisiau ar gyfer galwadau daearyddol 01 a 02?

Cwestiwn 4: Beth yw'ch barn am ein cynnig i ymestyn y rheolau sy'n rheoli gwasanaethau cyfradd breimiwm sy'n defnyddio rhifau 09 i gynnwys rhifau 0871?

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylem fynnu bod rhaid i unrhyw wasanaethau adloniant i oedolion sy'n defnyddio rhifau 08 symud i'r rhifau 09 a glustnodir ar gyfer y math hwn o gynnwys?

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y bydd y pecyn o fesurau y cynigiwn ei gyflwyno yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r problemau gyda Gwasanaethau Trosi Rhif? Os na, beth arall y gallem wneud yn eich barn chi a pham?

## Sut i gysylltu â ni

Bydd ein gweithredoedd yn effeithio ar lawer o bobl a sefydliadau ledled y DG, felly mae'n hynod bwysig y gwnawn ein penderfyniadau ar yr amser cywir ac yn y modd cywir. Nod y llyfryn crynodeb hwn yw rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn gennym ar 28 Medi 2005 a'r dyddiad cau ar gyfer eich ymatebion yw **6 Rhagfyr 2005**. Gallwch weld copi o'r ddogfen ymgynghori lawn ar [www.ofcom.org.uk](http://www.ofcom.org.uk), a darllen y cefndir ar y materion y soniwyd amdanynt yn y llyfryn hwn.

Gallwch anfon eich sylwadau trwy'r post neu dros y ffacs, gyda 'Ymgynghoriad NTS' arnynt, at:

Clive Hillier  
Competition and Markets  
Fourth Floor  
Ofcom  
Riverside House  
2A Southwark Bridge Road  
London SE1 9HA.

Ffacs: 020 7783 4103

Neu, gallwch anfon eich sylwadau mewn e-bost at: [nts@ofcom.org.uk](mailto:nts@ofcom.org.uk)

Sylwer nad oes angen i chi anfon copi caled atom os cysylltwch â ni mewn e-bost. Fel arfer, nid ydym yn cydnabod ein bod wedi derbyn eich sylwadau.



Dywedwch wrthym os hoffech i unrhyw ran o'ch sylwadau fod yn gyfrinachol. Dywedwch wrthym hefyd os gallwn gyhoeddi eich sylwadau pan fyddwn yn eu derbyn neu a hoffech i ni aros nes bod y cyfnod ymgynghori ar ben. Bydd o gymorth i ni os defnyddiwch daflen glawr yr ymgynghoriad (a gynhwysir gyda'r ddogfen ymgynghori lawn ac sydd ar gael o'n gwefan) pan anfonwch eich ymateb atom.

### **Unrhyw sylwadau cyffredinol?**

Os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch sut y cynhaliwn ein hymgyngoriadau neu awgrymiadau am sut y gallwn eu gwella, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghoriad ar 020 7981 3003 neu anfonwch e-bost atom at: [<consult@ofcom.org.uk>](mailto:consult@ofcom.org.uk). Rydym yn benodol awyddus i gael syniadau ar sut y gallwn gael barnau busnesau bychain, unigolion preifat a grwpiau diddordeb arbennig gan mai dyma'r math o bobl sy'n annhebygol o glywed am ymgynghoriad diwydiant ffurfiol.

Os hoffech drafod y materion hyn, neu ein prosesau ymgynghori yn gyffredinol, gallwch hefyd gysylltu â:

Tony Stoller  
Cyfarwyddwr – Cysylltiadau Allanol  
Ofcom  
Riverside House  
2A Southwark Bridge Road  
London SE1 9HA.


Ffôn: 020 7981 3550  
Ffacs: 020 7981 3333  
E-bost: [tony.stoller@ofcom.org.uk](mailto:tony.stoller@ofcom.org.uk)

## Atodiad A – Sut y mae galwadau NTS yn gweithio


Yn yr adran hon, esboniwn y gwahaniaeth rhwng galwad ffôn arferol a galwad NTS.

### Galwadau ffôn arferol

Galwadau yw'r rhain sy'n defnyddio rhifau daearyddol sy'n dechrau gyda 01 a 02. Pan fyddwch yn gwneud galwad i rywun arall rydych yn defnyddio gwasanaeth ffôn traddodiadol. P'un a ydych yn defnyddio eich llinell tir arferol gartref neu eich ffôn symudol, mae eich galwad yn teithio dros y rhwydwaith cyhoeddus.



Fodd bynnag, gall hyn gynnwys mwy nag un darparwr telegyfathrebiadau yn cludo eich galwad. Er enghraifft, os ydych yn gwsmer BT ac mae'r person rydych yn ei ffonio gyda cwmni ffôn cebl, bydd y ddau ddarparwr yn cludo'r alwad. Yn yr achos hwn, mae'r alwad yn dechrau gyda BT (felly BT yw'r 'darparwr cychwynnol' neu 'ddechreuwr yr alwad') ac mae'n dod i ben gyda'r cwmni cebl (y 'darparwr terfynu' neu 'derfynwr yr alwad').



Er y byddwch yn talu BT am eich galwad, bydd BT yna'n trosglwyddo cyfran o'r gost honno i'r cwmni cebl gan fod y cwmni hwnnw wedi cludo'r alwad ran o'r ffordd. Yna, bydd BT yn cadw gweddill y gost, a fydd yn cynnwys elw BT am ddarparu'r gwasanaeth ar eich cyfer. Gelwir yr alwad person-i-person hon yn alwad 'ddaearyddol' gan y'i gwnaed i leoliad penodol (er enghraifft, ffôn cartref y person y ffonioch chi).

### Galwadau NTS

Mae'r rhan fwyaf o alwadau NTS yn dechrau gyda 08 neu 09, a chynigiant fel arfer wasanaethau gwybodaeth ac adloniant, a mynediad rhyngwyd talu wrth ddefnyddio.

Dyma enghreifftiau o alwadau NTS:

- Galwadau 0800 (neu Radffôn), sy'n rhad ac am ddim;
- Rhifau 0820, a ddefnyddir gan ysgolion i gysylltu â'r rhyngwyd;


- Galwadau 0845, y codir pris adwerthu **lleol** safonol amdanynt i gwsmeriaid BT (gan dybio nad oes unrhyw ddeliau pecyn neu ostyngiadau eraill yn berthnasol);
- Galwadau 0870, y codir pris adwerthu **ceneditaethol** safonol amdanynt i gwsmeriaid BT (eto, gan dybio nad oes unrhyw ddeliau eraill yn berthnasol);
- Galwadau 0844, sy'n costio hyd at 5c y funud, neu 5c yr alwad, os ydych yn gwsmer BT;
- Galwadau 0871, sy'n costio hyd at 10c y funud, neu 10c yr alwad, i gwsmeriaid BT; a
- Galwadau 09XX, y codir cyfraddau premiwm amdanynt ac sydd fel arfer yn costio mwy na 10c y funud (neu 10c yr alwad).

Mae hyn yn golygu, os ydych yn deialu 0845 neu 0870, eich bod yn gwybod y pris gan fod gan bob rhif ei gost sefydlog ei hun. Fodd bynnag, mae ystod o brisiau ar gyfer galwadau i rifau 0844 a 0871, hyd at fwyafswm o 5c a 10c y funud, neu 5c a 10c yr alwad. Mae'r galwadau NTS drutaf i rifau 09 cyfradd breimiwm. Gallant gostio hyd at £1.50 y funud o rwydwaith BT, ac maent yn cynnwys llinellau pleidleisio ar y teledu, cystadlaethau, gwasanaethau oedolion, llinellau sgwrs, llwytho i lawr tôn ffôn ar gyfer ffonau symudol a gemau teledu rhyngweithiol.

Ond mae'r prisiau hyn yn berthnasol i gwsmeriaid BT yn unig. Defnyddiwch eich ffôn symudol, er enghraifft, a gall eich darparwr godi pa gost bynnag yr hoffai. Wrth reswm, rhaid iddo gyhoeddi ei restr brisiau fel eich bod yn gwybod beth rydych yn ei dalu ond, yn achos galwadau NTS, nid yw'r wybodaeth honno bob amser yn hawdd i'w chanfod.

Yn wahanol i alwadau daearyddol, rhennir yr elw'n wahanol rhwng y cwmnïau ffôn yn achos galwadau NTS. Golyga hyn os gwnewch alwad NTS o'ch ffôn BT y gall BT (y 'darparwr cychwynnol') gadw digon o'r hyn a dalwch i dalu ei gostau yn unig. Nid yw BT yn gwneud unrhyw elw, ac yn hytrach mae'n trosglwyddo'r gweddill i'r 'darparwr terfynu' – sef y darparwr sy'n derbyn yr alwad. Dyma sut y mae'r darparwr terfynu yn gwneud elw ar alwadau NTS. Efallai y darperir y gwasanaeth NTS rydych yn ei ffonio gan y darparwr terfynu ei hun, neu gan gwmni arall – 'darparwr gwasanaeth NTS' – nad oes ganddo rwydwaith ffôn ei hun efallai.

Mae galwadau NTS hefyd yn wahanol i alwadau daearyddol gan nad oes ganddynt unrhyw 'gartref' neu leoliad penodol. Mewn gwirionedd, os ffoniwch adran gwasanaethau cwsmeriaid cwmni mawr ar amser prysur, gellid anfon eich galwad at ble bynnag y gallant ddelio â hi - un o'u canolfannau galwadau yn y DG neu, o ran hynny, unrhyw le yn y byd.



Gan na all y darparwr cychwynnol (BT yn ein henghraifft ni) gadw unrhyw ran o'r elw, fel arfer ni cheir unrhyw ostyngiadau ar gost galwadau NTS. Fodd bynnag, mae mwy a mwy o ddarparwyr cychwynnol yn cynnig pecynnau galwadau deniadol sy'n cynnwys galwadau mewndirol a rhyngwladol daearyddol rhad. Pan fyddwch yn eu cymharu, gall rhifau NTS ddechrau ymddangos yn ddrud.

Gall y darparwr terfynu ddefnyddio'r elw o alwadau NTS i dalu am gostau llwybro'r galwadau i'r darparwr gwasanaeth. Mae rhywfaint o'r elw hwn hefyd yn talu am ychydig, neu'r cyfan hyd yn oed, o'r gwasanaeth ei hun. Caiff llawer o wasanaethau pwysig eu cyllido fel hyn, ac ni allent fodoli hebddo. Mae mynediad rhyngrwyd deialu, talu wrth ddefnyddio yn un enghraifft yn unig. Yma nid ydych yn talu ffi misol, ac mae costau galwadau ffôn pawb yn talu am y gwasanaeth cyfan. Ond os na fyddai darparwyr gwasanaeth NTS yn cael cyfran o brisiau'r galwadau, mae'n ddigon tebyg na fyddai ystod mor eang o wasanaethau ar gael dros y ffôn.

## **Atodiad B – Geirfa**

**Y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog:** adran y llywodraeth sy'n rhoi cyngor a chymorth i sefydliadau sector cyhoeddus ar bob agwedd ar gyfathrebiadau.

**ICSTIS:** Y Pwyllgor Annibynnol dros Oruchwyllo Safonau Gwasanaethau Gwybodaeth Ffôn – pwyllgor gwarchod y gwasanaeth cyfradd breimiwm.

**NTS:** Gwasanaethau Trosi Rhif, sef gwasanaethau ffôn sy'n defnyddio'r rhifau canlynol: 0800, 0844 a 0845, 0870 a 0871, 090 a 091.

**Darparwr gwasanaeth NTS:** darparwr gwasanaethau llais neu ddata i bobl sy'n deialu rhifau NTS.

**Darparwr cychwynnol:** y darparwr telegyfathrebiadau sy'n berchen ar y rhwydwaith lle mae galwad yn dechrau.

**Darparwr terfynu:** y darparwr telegyfathrebiadau sy'n berchen ar y rhwydwaith lle daw galwad i ben.